**At:** Y Pwyllgor Busnes

**Gan:** Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

**Dyddiad:** Tachwedd 2010

**Adolygiad o Reolau Sefydlog y Cynulliad: Newidiadau arfaethedig sy'n ymwneud â busnes pwyllgorau.**

**Diben**

1. Yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor Busnes o'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â busnes pwyllgorau ar 9 Tachwedd, gwahoddir y Rheolwyr Busnes i ystyried y cynigion nas trafodwyd ar gyfer gwneud newidiadau i'r Rheolau Sefydlog (y rheini sy'n ymwneud â meysydd cyfrifoldeb pwyllgorau, darpariaethau penodol sy'n ymwneud â rheolau gweithredu pwyllgorau a threfniadau pleidleisio yn y Pwyllgor Busnes wrth gynnig meysydd cyfrifoldeb pwyllgorau i'r Cynulliad (sef y Rheolau Sefydlog presennol a ganlyn - 12.4, 10.18-10.19, 10.31, 10.36A ac 11.7)). Ceir manylion y newidiadau hyn yn Atodiad A a cheir fersiwn 'lân' o'r Rheolau Sefydlog perthnasol sy'n cynnwys yr holl newidiadau arfaethedig yn Atodiad B i'r papur hwn.

**Gweddill y cynigion ar gyfer gwneud newidiadau i'r Rheolau sefydlog sy'n ymwneud â phwyllgorau.**

*i. Meysydd cyfrifoldeb y pwyllgorau (Rheol Sefydlog 12.4)*

2. Gofynnodd y Rheolwyr Busnes i aileirio Rheol Sefydlog 12.4(i) arfaethedig er mwyn egluro bod rhaid i bob un o gyfrifoldebau'r llywodraeth fod yn atebol i system bwyllgorau'r Cynulliad.

3. Newidiwyd y geiriad i egluro y byddai'n ofynnol i'r Pwyllgor Busnes, wrth gyflwyno unrhyw gynnig o dan Reol Sefydlog 12.2 neu 12.3, sicrhau bod pob un o feysydd cyfrifoldeb y llywodraeth a'r cyrff sy'n gysylltiedig â hi "yn" destun gwaith craffu gan bwyllgor (yn hytrach na'n "gallu" bod yn destun gwaith craffu fel y cynigiwyd yn wreiddiol). Bydd y cynnig a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Busnes yn dibynnu ar gytundeb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 12.2.

*ii. Cynigion ar gyfer meysydd cyfrifoldeb pwyllgorau a bennir gan y Pwyllgor Busnes – trefniadau pleidleisio: (Rheol Sefydlog 11.7)*

4. Cytunodd y Pwyllgor Busnes mewn egwyddor ar ddull newydd o sefydlu pwyllgorau a dull newydd o ymdrin â'u meysydd cyfrifoldeb yn y cyfarfod diwethaf. Fel y nodir yn BC(3)29-10: Papur 2 (paragraff 12(c)), mae rhan o'r cynnig hwn yn ymwneud â'r ffordd y bydd y Pwyllgor Busnes yn derbyn y cynnig ar gyfer strwythur y pwyllgorau cyn cyflwyno'r cynnig i'r

Cynulliad ei dderbyn. Cynigir y caiff unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â strwythur y pwyllgorau ei wneud drwy bleidlais gymhwysol, gymwysedig yn y Pwyllgor Busnes, ac nid pleidleisio cymhwysol llawn. Bydd angen diwygio Rheol Sefydlog 11.7[1] er mwyn gweithredu hyn fel y cynigir yn Atodiad A i'r papur hwn.

*iii. Cadeiryddion pwyllgorau (Rheolau Sefydlog 10.18 – 10.19)*

5. Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am eglurhad pellach ynglŷn â chymhwyso'r cynnig er mwyn rhoi rhagor o fanylion am y gweithdrefnau ar gyfer ethol cadeiryddion pwyllgorau.

6. Er nad yw'n ofyniad yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Rheolau Sefydlog presennol yn ei gwneud yn ofynnol i bob pwyllgor, wrth ethol cadeirydd, ystyried yr angen i sicrhau bod cydbwysedd y cadeiryddion ar draws y pwyllgorau yn adlewyrchu'r grwpiau gwleidyddol y mae'r Aelodau yn perthyn iddynt. Yn ymarferol, golyga hyn bod y pleidiau yn cytuno i ddyrannu cadeiryddion yn ôl grwpiau gwleidyddol, a hynny'n dibynnu ar gydbwysedd gwleidyddol Aelodau etholedig.

7. Mae'r Rheol Sefydlog bresennol yn nodi bod rhaid i bob pwyllgor ethol cadeirydd ond nid yw'n darparu manylion am sut y dylid gwneud hyn. Wedi dweud hyn, mae'r Rheolau Sefydlog yn pennu proses ar gyfer ethol pob deiliad swydd penodol arall. Felly, diben gwneud y cynnig yw dileu'r diffyg eglurder a chysondeb hwnnw.

8. Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am opsiynau amgen i'r cynnig a amlinellir uchod er mwyn adlewyrchu'r arfer presennol lle bydd grwpiau gwleidyddol yn enwebu cadeiryddion. Gwahoddir y Rheolwyr Busnes i ystyried yr opsiynau amgen a ganlyn:

a. Diwygio Rheol Sefydlog 10.18, fel y cynigiwyd yng nghyfarfod yr wythnos diwethaf;

   Byddai hyn yn parhau â'r system lle bydd pwyllgorau yn ethol cadeiryddion ond yn sicrhau eu bod yn ystyried penderfyniadau'r Pwyllgor Busnes o ran cydbwysedd gwleidyddol cadeiryddion ar draws y pwyllgorau.

b. Parhau â'r trefniadau presennol drwy beidio â newid y Rheolau Sefydlog;

[1] Efallai y bydd y Rheolwyr Busnes am nodi y caiff y Rheol Sefydlog hon ei symud i Reol Sefydlog 6 – Trefn Busnes, a hynny yn dilyn cytundeb mewn egwyddor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd. Cyfeirir ati fel RhS 11.7 yn y papur hwn er hwylustod.

Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau ethol cadeirydd ond ni fyddai'n pennu sut y dylid gwneud hyn. Byddai pwyllgorau yn gallu parhau â'r arfer presennol o gymeradwyo'r cadeirydd a gynigiwyd gan y grŵp gwleidyddol perthnasol ond byddai'n cadw (a) hawl y pwyllgor i wrthwynebu'r enwebiad a gynigir os yw'n dewis gwneud hynny a / neu (b) gallu aelodau pwyllgorau i gynnig enwebai amgen i fod yn gadeirydd.

c. Disodli'r broses sy'n caniatáu i bwyllgorau ethol cadeirydd gyda phroses lle bydd grwpiau gwleidyddol yn cynnig i'r Pwyllgor Busnes enw'r aelod y maent hwy am ei benodi i unrhyw bwyllgor y mae'r cadeirydd yn perthyn i'w grŵp gwleidyddol hwy. Yna, cyfrifoldeb y Pwyllgor Busnes fydd enwi'r cadeirydd wrth gyflwyno'r cynnig o dan Reol Sefydlog 10.3 newydd sy'n cynnig aelodaeth y pwyllgor.

Byddai'n ofynnol i'r Pwyllgor Busnes gyflwyno cynnig yn cynnwys aelodaeth a chadeirydd pwyllgor i'r cyfarfod llawn ei dderbyn. Byddai angen i Reolwyr Busnes ystyried a oes angen cynnal y dyletswydd presennol sydd ar y Pwyllgor Busnes, o dan Reol Sefydlog 10.18, i ystyried yr angen i sicrhau bod cydbwysedd y cadeiryddion ar draws y pwyllgorau yn adlewyrchu'r grwpiau gwleidyddol y mae'r Aelodau yn perthyn iddynt mewn unrhyw Rheolau Sefydlog diwygiedig.

Byddai angen i unrhyw newid i gadeiryddiaeth pwyllgor gael ei gynnig gan y Pwyllgor Busnes ac yna'i dderbyn gan y Cynulliad yn y cyfarfod llawn bob tro.

Byddai angen gwneud darpariaeth i'r pwyllgor wneud trefniadau i benodi cadeirydd dros dro pe bai hynny'n angenrheidiol (RhS 10.19 presennol).

Y cwestiwn sylfaenol yw a yw Aelodau am atgyfnerthu ymhellach rôl grwpiau gwleidyddol wrth ddethol cadeiryddion pwyllgorau neu a ydynt am adael hyn yn agored i Gynulliadau'r dyfodol ganiatáu i bwyllgorau ethol eu cadeiryddion eu hunain.

*iv. Cworwm (RhS 10.31)*

9. Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am opsiynau amgen i'r cynnig i ddileu'r terfyn amser o 20 munud i gael cworwm mewn pwyllgor. Cafwyd achosion lle y daeth cadeiryddion yn ymwybodol na fyddai modd cael cworwm ond iddynt orfod aros am 20 munud i ddatgan hynny, a chlywyd am achosion eraill lle y bu'n hysbys y byddai 20 munud yn annigonol. Felly, y rheswm dros gynnig y

newid yw rhoi'r disgresiwn i'r cadeirydd ohirio'r cyfarfod cyn y terfyn amser a nodir yn y Rheolau Sefydlog lle y bo'n rhesymol ac yn briodol gwneud hynny.

10. Gwahoddir y Rheolwyr Busnes i ystyried yr opsiynau amgen a ganlyn:

a. Cytuno ar y cynnig a roddwyd gerbron yr wythnos diwethaf (BC(3)29-19 Papur 1 – Atodiad A);

b. parhau â'r trefniadau presennol drwy beidio â newid y Rheolau Sefydlog;

c. pennu cyfnod terfyn hwyaf (e.e. 30 neu 40 munud) ond gan roi'r disgresiwn i'r cadeirydd ohirio'r cyfarfod cyn hynny os yw'n credu na fydd cworwm i'r cyfarfod cyn y terfyn amser hwnnw.

*v. Natur agored pwyllgorau – cyhoeddi dogfennau (RhS 10.36A)*

11. Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar yr egwyddor i gynnwys Rheol Sefydlog newydd i sicrhau y caiff cyfeiriad penodol ei wneud at gyhoeddi dogfennau gan bwyllgorau i ategu'r amddiffyniad cyfreithiol a roddir i'r cynnwys. Cytunodd yr Aelodau i ystyried ymhellach a oes angen ategu'r geiriad ymhellach drwy ei gysylltu â darnau perthnasol o ddeddfwriaeth. Ceir dull amgen i Reol Sefydlog 10.36A, sy'n ategu'r amddiffyniad cyfreithiol a geisir gan Aelodau, yn Atodiad A i'r papur hwn.

**Penderfyniad**

12. Gwahoddir y Pwyllgor i roi sylwadau ar y newidiadau arfaethedig fel y'u pennir ym mharagraffau 2 i 11 uchod ac i gytuno mewn egwyddor ar unrhyw newidiadau nas trafodwyd i Reolau Sefydlog 10, 11 a 12 fel y'u nodir yn Atodiad A.